# IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO (HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS)

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 22 Ionawr, 2025.

Mae agenda'r Is-bwyllgor ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N.C. Thomas (Cadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce a E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, R.E. Godfrey a G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB -

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd, 2024.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS YNG NGHYFFINIAU FFERM WHITEHALL, GWENFÔ (CL) –

PENDERFYNWYD – Bod Cyngor Bro Morgannwg, sef yr awdurdod priffyrdd perthnasol, yn bwrw ymlaen â gwneud pum Gorchymyn fel y nodir yn y Crynodeb Gweithredol ac y manylwyd arnynt yn Atodiadau 3, 4a, 4b, 5a a 5b i'r adroddiad ac, yn amodol ar na gwrthwynebiadau dilynol yn cael eu derbyn, cadarnhau'r Gorchmynion.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod, a oedd yn cynnwys amlinellu'r manteision sylweddol i'r cyhoedd o ddarparu rhwydwaith sy'n hygyrch i ystod ehangach o ddefnyddwyr. Ystyriwyd bod y rhain yn drech na'r materion neu'r pryderon a godwyd.